# LC1115

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Deddf Tai 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2005

Mae’r Gorchymyn yma (sef y cyntaf sy’n cael ei wneud mewn perthynas â Chymru) yn cychwyn y darpariaethau hynny yn Neddf Tai 2004 sy’n cyflwyno seiliau newydd dros ddal yn ôl aseiniad tenantiaeth ddiogel, sy’n dileu dyletswydd yr awdurdodau tai lleol i anfon adroddiadau blynyddol at denantiaid ac sy’n darparu ar gyfer creu swydd Ombwdsmon Tai Cymdeithasol Cymru.

## Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

## Sylwadau

Bydd y Gorchymyn yma’n cychwyn y pwerau galluogi sy’n gymwys i Reoliadau Ombwdsmon Tai Cymdeithasol (Cymru) 2005 sydd i’w gwneud ar 5 Gorffennaf 2005 drwy ddibynnu ar bwerau sydd wedi’u cynnwys yn adran 13 o Ddeddf Ddehongli 1978, hynny yw cyn i’r Gorchymyn yma gychwyn y pwerau galluogi perthnasol o 14 Gorffennaf 2005 ymlaen.

**Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**28 Mehefin 2005**